

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD**  
**7 MEDI 2023**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Iau, 7 Medi 2023.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Arnold Woolley (Cadeirydd)**

Y Cynghorwyr: Marion Bateman, Mel Buckley, Tina Claydon, Carol Ellis, Gladys Healey, Dave Mackie, Hilary McGuill a Linda Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Jean Davies, Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) ac Uwch Reolwr - Diogelu a Chomisiynu

**DIRPRWY:** Y Cynghorydd: Bill Crease (yn lle Debbie Owen)

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Christine Jones (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles); Uwch Reolwr Plant a'r Gweithlu; Uwch Reolwr Oedolion; Rheolwr Rhaglen (Y Dwyrain) - Gwasanaethau Cymunedol; Rheolwr Gwasanaeth Plant gydag Anableddau ac Oedolion dan 65 oed; a Swyddog Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol a'r Amgylchedd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**18. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Dim.

**19. COFNODION**

Ymatebodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol a'r Amgylchedd i gwestiwn y Cynghorydd McGuill ynglŷn â phryd y byddai'r gweithdy i Aelodau yng Nghanolfan Westwood, Bwcle yn cael ei gynnal fel yr amlinellwyd yng nghofnodion 20 Gorffennaf 2023, drwy ei chynghori y byddai hyn yn cael ei drafod yn yr eitem nesaf.

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2023 eu cymeradwyo, fel y'u cynigiwyd gan y Cynghorydd Dave Mackie ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Marion Bateman.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

**20. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU**

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol a'r Amgylchedd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol fel y nodir yn yr adroddiad. Fe ychwanegodd bod trefniadau yn cael eu gwneud gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) i fynychu'r cyfarfod ym mis Tachwedd neu fis Rhagfyr.

Dyweddod ei bod wedi derbyn rhai ymatebion da gan Aelodau mewn perthynas â'r eitemau roeddent eisiau eu trafod yn y cyfarfod hwnnw. Cyngorwyd yr Aelodau bod y gweithdy i'w gynnal yng Nghanolfan Westwood, Bwcle yn cael ei ddatblygu.

Gofynnodd y Cyngorydd Bateman os oedd yr eitem yr oedd wedi'i hawgrymu ar E-ymgyngoriadau mewn Meddygfeydd am gael ei thrafod yng nghyfarfod BIPBC. Cytunodd yr Hwylusydd y byddai'r eitem yn cael ei chynnwys ar y rhestr. Cadarnhaodd yr eitemau a oedd wedi'u derbyn hyd yma, sef:-

- Mynediad at ofal deintyddol
- E-ymgyngoriadau
- Gwneud apwyntiadau gyda Meddygon Teulu
- Y sefyllfa bresennol o ran y Bwrdd Iechyd
- Heintiau mewn ysbytai
- Gwrthdaro rhwng llawdriniaethau brys a dewisol

Mewn perthynas â'r mater a godwyd gan y Cyngorydd Bateman ar E-ymgyngoriadau, argymhellodd y Cyngorydd Ellis ei bod yn trafod unrhyw gwynion gyda Mark Isherwood AS. Diolchodd y Cyngorydd Bateman iddi am ei chynghor.

Ychwanegodd y Cyngorydd McGuill at y rhestr o gwestiynau fel a ganlyn:-

- sut yr oedd y Bwrdd Iechyd yn gweithredu E-ymgyngoriadau'r System Ysbyty yn y Cartref
- sut yr oeddent yn dosbarthu gwybodaeth i bobl a fyddai'n elwa o'r gwasanaeth
- cyswllt i Wasanaeth Offer Cymunedol Gogledd Ddwyrain Cymru er mwyn i bobl fod yn ymwybodol o sut i gael mynediad at yr offer oherwydd roedd yn anodd iawn cael mynediad ato oni bai bod cais yn cael ei wneud drwy Weithiwr Cymdeithasol

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cyngorydd David Mackie a'u heilio gan y Cyngorydd Gladys Healey.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;
- (b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgyngoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a
- (c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd a wnaed ar y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

## **21. SYLWADAU, CANMOLIAETHAU A CHWYNION**

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Plant a'r Gweithlu wybodaeth gefndir i'r adroddiad gan nodi fod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn wasanaeth a oedd yn

canolbwyntio ar bobl ac yn cefnogi miloedd o drigolion Sir y Fflint, ac er bod rhai trigolion wedi croesawu'r gefnogaeth ac wedi rhoi adborth cadarnhaol, nid oedd eraill o'r un farn ac fe arweiniodd hyn at gwynion. Trosglwyddodd yr awenau i'r Swyddog Cwynion i egluro'r ystadegau.

Rhoddodd y Swyddog Cwynion ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Cymdeithasol Plant drosolwg cryno o'r adroddiad ar gyfer y ddau faes yn cynnwys:-

- Trosolwg o gwynion
- Cam 2 (Archwiliad Annibynnol)
- Ombwdsmon
- Gwersi a ddysgwyd

Wrth grynhoi, dywedodd fod 212 sylw o ganmoliaeth wedi cael eu derbyn ar draws y gwasanaeth a bod nifer y cwynion wedi amrywio ond wedi parhau'n gyson.

Cytunodd y Cynghorydd Mackie bod yr adroddiad yn debyg i adroddiadau blaenorol a bod y cwynion yn cael eu trin yn briodol. Dywedodd hefyd fod pobl yn fwy tebygol o gwyno ac roedd yn falch iawn o weld fod cymaint o ganmoliaethau wedi dod i law. Cytunodd y Cynghorydd McGuill gyda'r Cynghorydd Mackie a dywedodd ei bod hithau wedi'i phlesio gyda sut yr oedd arferion yn cael eu haddasu o ganlyniad i'r cwynion a dderbyniwyd.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig gan y Cynghorydd Linda Thomas a'i eilio gan y Cynghorydd Hilary McGuill.

### **PENDERFYNWYD:**

Bod yr Aelodau'n croesawu effeithiolrwydd y drefn ganmoliaethau a bod gwersi'n cael eu dysgu i wella darpariaeth y gwasanaeth.

## **22. DIWEDDARIAD C2A (I GYNNWYS LLEOLIADAU YCHWANEGOL AROSFA)**

Dywedodd yr Uwch Reolwr Oedolion wrth yr Aelodau ei bod yn awyddus iawn i'r Tîm Plentyn i Oedolyn rannu rhywfaint o'r gwaith rhagorol yr oeddent wedi'i wneud.

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Plant ag Anableddau ac Oedolion dan 65 oed wybodaeth gefndir i'r adroddiad am fan dechrau'r gwasanaeth, sut y gwnaethant ddysgu a datblygu'n barhaus a ble'r oeddent arni heddiw. Dywedodd fod yr adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y cyfleuster Gweithredu dros Blant a oedd wedi cael ei gomisiynu yn Arosfa a oedd wedi'i leoli yn Yr Wyddgrug ac yn darparu gofal seibiant.

Diolchodd y Cynghorydd Mackie iddynt am yr adroddiad a oedd yn trafod ac yn egluro'r gwasanaeth ac roedd hefyd eisiau diolch i'r staff am eu gwaith. Gofynnodd pam fod y rhaniad oedran yn 14 oed ac fe gafodd wybod fod hyn oherwydd bod angen staff â sgiliau gwahanol ar gyfer yr oedran hwnnw, i gynllunio eu dyfodol mewn perthynas ag addysg bellach a chyflogaeth yn ogystal â budd-daliadau a byw â chymorth.

Gofynnodd y Cynghorydd McGuill sut yr oeddent yn helpu pobl ifanc 21-22 mlwydd oed a oedd newydd symud i'r ardal ac yn anhysbys iddynt cyn hynny. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Plant ag Anableddau ac Oedolion dan 65 oed eu bod yn eu hatgyfeirio at Wasanaethau Oedolion oherwydd bod y tîm Un Pwynt Mynediad yn derbyn ymholiadau ac yn casglu gwybodaeth, ac yn defnyddio'r wybodaeth honno i drosglwyddo'r unigolyn at y tîm priodol. Cadarnhaodd y byddai gofal seibiant hefyd yn cael ei ddarparu os oedd angen (ond nid yng nghyfleuster Arosfa oherwydd ei fod ond wedi cofrestru i ddarparu gwasanaethau i unigolion hyd at 18 oed) ond roedd dau gartref gofal tymor byr i oedolion yn Sir y Fflint. Ychwanegodd fod taliadau uniongyrchol am ofal seibiant, lle'r oedd pobl yn gallu talu ffrind i'r teulu neu berthynas i ofalu ar yr unigolyn i roi seibiant i'r teulu, hefyd yn opsiwn.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd McGuill a'u heilio gan y Cynghorydd Gladys Healey.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod Aelodau yn cael eu hysbysu ynglŷn â'r gwaith a wnaed o fewn y Tîm C2A;
- (b) Bod Aelodau yn cael eu hysbysu ynglŷn â darparu seibiant yn Arosfa yn yr Wyddgrug; a
- (c) Bod llythyr yn cael ei anfon ar ran y Pwyllgor i staff y Gwasanaeth C2A yn eu llongyfarch ac yn diolch iddynt am yr holl waith a wnaed gan y Tîm.

## **23. BLAENORIAETHU'R CYNLLUN CYFALAF STRATEGOL**

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Plant a'r Gweithlu wybodaeth gefndir i'r adroddiad gan nodi bod y chwe rhanbarth yng Nghymru wedi cael cais gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu Cynllun Cyfalaf Strategol 10 Mlynedd i grynhoi'r datblygiad allweddol sy'n ofynnol gan bartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol gyda budd-ddeiliaid allweddol eraill i ddiwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol sylfaenol a chymunedol, yn benodol lle fyddai angen cyllid LIC i gefnogi'r datblygiadau hynny. Roedd yn rhaid i bob rhanbarth gael Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol lle'r oedd arweinwyr strategol mewn gwasanaethau cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector annibynnol yn dod at ei gilydd i greu gwasanaeth effeithiol ar gyfer y bobl yn y rhanbarth hwnnw. Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fyddai'n gyfrifol am oruchwylio gweithrediad y cynllun. Eglurodd fod y rhaglenni ariannu newydd wedi cael eu sefydlu a bod yr adroddiad hwn yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun 10 mlynedd a sut y byddai'n cael ei symud yn ei flaen. Trosglwyddodd yr awenau i'r Rheolwr Rhaglen (Y Dwyrain) - Gwasanaethau Cymunedol i egluro sut yr oeddent yn sicrhau bod y datblygiadau cyfalaf yn cyd-fynd, yn cefnogi ac yn diwallu anghenion trigolion Sir y Fflint.

Cyflwynodd y Rheolwr Rhaglen (Y Dwyrain) - Gwasanaethau Cymunedol ymddiheuriadau ar ran awdur yr adroddiad, sef Swyddog Arweiniol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn Sir y Fflint. Eglurodd fod y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol wedi disodli'r Gronfa Gofal Integredig yn 2022 a'i bod yn cynnwys

elfennau o gyllid refeniw a chyllid cyfalaf. Atgoffodd yr Aelodau mai pwrpas yr adroddiad hwn oedd i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y broses newydd i ddatblygu Cynllun Cyfalaf Strategol 10 Mlynedd ar gyfer datblygiadau cyfalaf a oedd yn diwallu anghenion y rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer Gogledd Cymru a oedd yn seiliedig ar y cyllid o'r cronfeydd cyfalaf canlynol:-

- Y Gronfa Tai â Gofal - Cyllid grant LIC ar gyfer prosiectau cyfalaf a oedd yn cynyddu'r stoc dai i ddiwallu anghenion pobl gydag anghenion gofal a chymorth.
- Y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso - Cyllid grant LIC ar gyfer prosiectau cyfalaf a oedd yn darparu canolbwyntiau cymunedol a chanolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig neu'n ailgydbwyso'r farchnad ofal drwy fuddsoddi mewn lleoliadau cymunedol ac eiddo gofal preswyl.

Eglurodd mai nid ceisio cytundeb ar gyfer datblygiad neu gyllid cyfalaf oedd bwriad yr adroddiad ond i Aelodau gael deall y broses newydd a'r gofyniad i ddatblygu cynllun 10 mlynedd. Dywedodd fod y cynlluniau o Sir y Fflint a oedd wedi cael eu nodi i'w cynnwys yn y cynllun eisoes wedi cael eu cymeradwyo ac yn rhan o'r rhaglen asedau cyfalaf.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Christine Jones wrth y Cynghorydd Woolley, fel y nodwyd yn yr adroddiad, nad oedd hyn wedi cael ei gyflwyno i'r Cabinet ac y byddai trafodaethau heddiw yn cael eu hadrodd yng nghyfarfod nesaf y Cabinet.

Mynegodd y Cynghorydd Mackie bryderon ac fe ofynnodd am eglurhad ynghylch y Cynllun Rhanbarthol a'i fod yn seiliedig ar Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru a'r broses gymhleth yr oedd angen ei dilyn i gyflwyno Prosiectau Cyfalaf yn seiliedig ar y Cynllun 10 Mlynedd. Cytunodd y Cynghorydd Christine Jones fod y broses yn gymhleth a'i bod yn eitem ar raglen Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru y diwrnod canlynol. Ychwanegodd y Rheolwr Rhaglen (Y Dwyrain) - Gwasanaethau Cymunedol fod yr Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru eisoes mewn lle gyda rhaglen dreigl i gael y wybodaeth ddiweddaraf a bod angen i unrhyw bartner a oedd yn dymuno cynnwys datblygiad yn y Cynllun Cyfalaf Strategol nodi sut y byddai'r datblygiad yn cyfrannu at yr anghenion a nodwyd yn yr Asesiad Anghenion Poblogaeth. Eglurodd mai cyfeirio at y Cynllun Cyfalaf Strategol oedd yr adroddiad pan oedd yn cyfeirio at "y cynllun" ac nid oedd angen sawl dogfen, dim ond y Cynllun Cyfalaf Strategol hwn. Rhoddwyd pwyslais ar y ffaith fod bwriad cryf i gael Cynllun Cyfalaf Strategol 10 Mlynedd ym mhob rhanbarth a fyddai, mewn amser, yn dechrau cynnwys rhai o'r elfennau eraill y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad. Fodd bynnag, ar y pwynt hwn, nid oedd partneriaid mewn sefyllfa i wneud ymrwymadau 10 mlynedd ac felly roeddent yn gweithio ar y sail o ychwanegu yr hyn roeddent yn gallu at y cynllun yn yr arfaeth ac yna'r cynllun byw gan ganolbwyntio'n bennaf ar y tair blynedd gyntaf. Dywedodd er eu bod eisoes ym mlwyddyn gyntaf y rownd ariannu 3 blynedd, roedd swyddogion wedi bod yn gweithio ar gynlluniau cyfalaf yn ystod blynyddoedd blaenorol felly nid oedd angen aros i'r Cynllun Cyfalaf Strategol gael ei gymeradwyo cyn dechrau gweithio ar y broses o gyflwyno ceisiadau am gyllid gan Lywodraeth Cymru a oedd bellach yn weithredol.

Mewn ymateb i'r Cynghorydd Gladys Healey, dywedodd y Rheolwr Rhaglen (Y Dwyrain) - Gwasanaethau Cymunedol fod y Cyngor eisoes wedi ymrwmo i ariannu cyfraniadau i bob cynllun a restrwyd yn y Rhaglen Asedau Cyfalaf. Ychwanegodd fod angen i'r Cynllun Cyfalaf Strategol gael ei ddatblygu dros gyfnod o amser er mwyn iddynt ymgymryd â'r broses o wneud cais am gyllid Llywodraeth Cymru o dan y rhaglen hon yn y dyfodol. Nid ceisio cymeradwyaeth am unrhyw gynlluniau cyfalaf neu gyllid oedd pwrpas y cais yn yr adroddiad, ond i'r Cyngor gymryd rhan yn natblygiad y Cynllun Cyfalaf Strategol. Cytunodd fod angen i'r Aelodau fod yn glir o ran yr hyn roeddent yn cytuno iddo, ond mewn gwirionedd, roedd pawb yn ceisio dyfeisio beth oedd yn digwydd nesaf ac roedd camau wedi cael eu rhoi mewn lle i gynyddu'r hyn y gellid ei wneud rwan gyda'r bwriad o lunio Cynllun 10 Mlynedd dros amser. Pwysleisiodd fod neges glir gan Sir y Fflint i gydweithwyr rhanbarthol na fyddai unrhyw beth yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Cyfalaf Strategol nad oedd eisoes wedi bod drwy broses Sir y Fflint, felly nid oedd unrhyw risg o ran cytuno i gymryd rhan mewn datblygu Cynllun Cyfalaf Strategol. Fodd bynnag, pe na bai'r Cyngor yn cymryd rhan yn y broses byddai'n dechrau cyfyngu cyfleoedd am gyllid yn y dyfodol. Awgrymodd, gyda chytundeb y Cadeirydd, eu bod yn glir iawn gyda'r Rheolwr Rhaglen Rhanbarthol ynglŷn â'r pwyntiau a godwyd ac y byddai Aelodau yn ceisio gwybodaeth ychwanegol dros amser wrth i gwmpas y Cynllun Cyfalaf Strategol ddatblygu.

Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Plant a'r Gweithlu fod hyn yn ymwneud â bwriad iddynt feddwl yn hirdymor ar draws bartneriaethau am fuddsoddiad cyfalaf a'u bod ar gamau cynnar hynny. Pwysleisiodd nad oedd ganddynt yr atebion i gyd, ond nid oedd hyn yn ymwneud ag adeiladau; roedd yn ymwneud ag angen partneriaethau i wneud i bethau weithio oddi mewn iddynt.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd McGuill, ynglŷn â rhestr ddymuniadau ar gyfer datblygiad cyfalaf i ddiwallu anghenion poblogaeth Sir y Fflint, cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Plant a'r Gweithlu fod ganddynt restr ddatblygol ac roedd y pethau roeddent yn eu cyhoeddi rwan eisoes wedi bod yn cael eu datblygu dros y tair blynedd diwethaf ac roedd yn awr yn amser i benderfynu beth fyddai ei angen mewn tair blynedd arall.

Ymatebodd y Rheolwr Rhaglen (Y Dwyrain) - Gwasanaethau Cymunedol i ddealltwriaeth y Cynghorydd Bill Crease o'r broses gan ddweud y dylai'r Cynllun 10 Mlynedd, dros amser, ddechrau rhoi ystyriaeth i grantiau gwahanol tu hwnt i'r rhai hynny a oedd wedi cael eu trafod heddiw. Cadarnhaodd mai dim ond am 3 blynedd fyddai cyllid y Gronfa Tai â Gofal a'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgybwysu ar gael. Gan ychwanegu at yr hyn a ddywedodd y Cynghorydd Crease, nid oedd y Cynghorydd Carol Ellis yn gweld sut y gallent gynllunio 10 mlynedd i'r dyfodol heb unrhyw gyllid mewn lle ac nid oedd yn gallu cytuno i rywbeth nad oedd yn ei ddeall yn bendant.

Awgrymodd yr Uwch Reolwr Plant a'r Gweithlu y dylai'r Aelodau ystyried fod tair blynedd o sicrwydd cymharol o arian wedi'i alinio o ran cyfalaf ar gyfer ymrwymadau presennol yn Sir y Fflint. Er bod angen iddynt weithio tuag at gynllun 10 mlynedd, y gwirionedd oedd y byddent yn gwneud hynny fesul cam, dros amser wrth gael mwy o sicrwydd am y cyllid ar gael a'r blaenoriaethau ar gyfer y Cyngor.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Christine Jones at argymhelliad (b) yn yr adroddiad a oedd yn gofyn i Aelodau gymeradwyo cymryd rhan yn y rhaglen ranbarthol - oherwydd bod Llywodraeth Cymru yn gofyn i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar draws Cymru i gytuno iddi.

Dywedodd y Cynghorydd Mackie y gallai San Steffan, Llywodraeth Cymru ac Aelodau Sir y Fflint fod yn gwbl wahanol mewn wyth mlynedd, ac fe allai hyn arwain at fwy o newidiadau ac y dylid edrych tu hwnt i'r pum mlynedd o fewn y cysyniad gwleidyddol, a oedd yn anodd. Roedd yn cydnabod fod angen i Sir y Fflint ddechrau cael ymrwymiad ariannol gan Lywodraeth Cymru o'r flwyddyn gyntaf neu fe allai gollu allan ar gael cyllid yn ddiweddarach.

Dywedodd y Cynghorydd Tina Claydon y byddai'n pryderu'n arw pe na bai'r strategaeth hon yn cael ei datblygu a chytunodd gyda'r Cynghorydd Mackie y gallai cyllid yn y dyfodol gael ei gyfyngu os nad oedd y Cyngor yn cymryd rhan.

Cafodd argymhelliad (a) yn yr adroddiad ei gynnig gan y Cynghorydd Dave Mackie a'i eilio gan y Cynghorydd Tina Claydon.

Fel yr awgrymwyd gan y Cadeirydd, cytunodd yr Aelodau y dylid diwygio argymhelliad (b) fel yr isod, ac fe gafodd hyn ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Mackie a McGuill.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod Aelodau'n nodi'r gofyniad am Gynllun Cyfalaf Strategol 10 Mlynedd ar gyfer Gogledd Cymru a'r prosesau blaenoriaethu ac achos busnes cysylltiedig sydd eu hangen i sicrhau cyllid Llywodraeth Cymru; a
- (b) Bod y Pwyllgor yn argymhell i'r Cabinet y dylid cymeradwyo cymryd rhan yn y cynllun a'i fwriad strategol.

#### **24. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL**

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 3.45pm)

.....  
**Y Cadeirydd**